

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 361- Beirniadaeth Rhyddiaith Blwyddyn 12 a dan 19 oed i ddysgwyr

#### Beirniad – Lis Williams

2 ymgeisydd ddaeth i law – Jane Rance ac Anna Ng.

#### Jane Rance

Dewisodd Jane Rance ysgrifennu am Y LLYFRAU GLEISION.

Mae hi'n dechrau pob paragraff â dyfyniad (Saesneg) o'r Llyfrau Gleision, ac yn mynegi ei barn yn syth bin. Yna, â ymlaen i gefnogi'r farn honno drwy ymhelaethu â ffeithiau cefnogol e.e. Yn ôl Y Llyfrau Gleision, nid oes Llenyddiaeth Gymraeg sy'n deilwng o'r enw, ond y mae hi'n cyfeirio at Y Mabinogi, y bardd Taliesin, a'r beirdd cyfoes, Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones.

Yn ôl Y Llyfrau Gleision, nid oes arweinyddion Cymraeg teilwng, ond beth am Hywel Dda, Owain Glyndwr, a David Lloyd George, meddai hi. Hefyd, mae'r Iaith Gymraeg wedi llwyddo i ddarostwng gyda chymorth 'Yr Eisteddfod sy'n ddathliad o bopeth sy'n Gymraeg', a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg sydd wedi sicrhau parhâd yr Iaith drwy ei hymgyrchoedd ers 1962.

Mae 'Plaid Genedlaethol Cymru' a Datganoli yn enghreifftiau sy'n gwrthddweud datganiad Y Llyfrau Gleision bod Cymru yn 'wareiddiad amherffaith'. Mae hi'n crynhoi drwy ddweud 'bod Y Llyfrau Gleision yn anghywir iawn am yr Iaith Gymraeg', ond mae hi'n newid cywair ychydig drwy sôn am farn y Cymry -y nhw - yn hytrach na'i barn bersonol hi.

#### Anna Ng

Dewisodd yr Ymgeisydd ysgrifennu pytiau o dan 7 o benawdau, sef, Y Celtiaid, Llywelyn ap Gruffydd, Owain Glyndwr, Henry vii, Saunders Lewis, Margaret Thatcher, a Gwynfor Evans. Mae'r gair 'Anghytuno!' yn ymddangos o dan deitl pob paragraff, ond ar wahân i hynny, mae'n anodd cael hyd i farn bersonol. Cymysgld, braidd, yw'r cynnwys.

Oherwydd bod cynnwys erthygl tasg Jane Rance yn eglurach ac yn fwy perthnasol, rhoddaf y wobr gyntaf iddi hi.

1af - Jane Rance      2il - Anna Ng